# Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru, 4 Chwefror 2021
# Asesiadau o Lesiant Lleol: nodyn diweddaru

## Cyhoeddiad

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gynhyrchu Asesiad o Lesiant, gan ddadansoddi cyflwr llesiant yn ardal y Bwrdd. Mae'r casgliadau a'r dadansoddiadau'n bwysig gan y byddant yn effeithio ar y math o amcanion y bydd y Bwrdd yn eu dewis ar gyfer ei gynllun llesiant.

Cafodd yr asesiadau cyntaf o lesiant eu cyhoeddi yn 2017, a bwriedir cyhoeddi'r cylch nesaf o asesiadau erbyn mis Mai 2022.

## Diweddariad

### Disgwyliadau

Yn gryno, disgwylir y bydd y cylch nesaf o asesiadau llesiant yn asesu llesiant lleol mewn modd cynhwysfawr, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r canllawiau statudol (SPSF3 canllawiau). Rydym yn deall bod timau o dan bwysau mawr ar hyn o bryd, ond byddai risgiau cynhenid i lesiant pe bai dull gweithredu llai manwl yn cael ei ddefnyddio.

Mae Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystyried y ffordd orau o gyfathrebu eu disgwyliadau ar y cyd, ac maent hefyd yn cynnig cyngor a chymorth o ran dysgu o'r cylch diwethaf  o asesiadau. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod yr wythnosau nesaf.

Rydym yn cydnabod yr heriau sy'n codi'n lleol wrth wneud synnwyr o'r gofynion cymhleth sydd ar yr un sefydliadau i gynhyrchu asesiadau a chynlluniau tebyg o dan ddeddfwriaeth genedlaethol wahanol. Mae edrych eto ar y canllawiau statudol yn lle da i ddechrau, ond rydym yn pwysleisio bod hyblygrwydd llwyr yn lleol (neu'n rhanbarthol) o ran sut mae'r Byrddau (gan gynnwys y Byrddau a phartneriaethau eraill) yn trefnu eu hunain i gynhyrchu'r asesiadau a'r cynlluniau hyn, a sut y maent yn eu gweithredu.

### Cymorth

Yr haf diwethaf, anfonodd swyddogion arolwg i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r rheini sy'n eu cefnogi, er mwyn casglu adborth ar y math o gymorth a fyddai'n gallu eu helpu i baratoi'r asesiadau.

Cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei sefydlu, sy'n cynnwys nifer o gydgysylltwyr y Byrddau, swyddogion Llywodraeth Cymru, a chydweithwyr o Data Cymru, i edrych yn benodol ar y cylch nesaf o asesiadau llesiant a'r math o gymorth y gallai Llywodraeth Cymru ei ddarparu i gefnogi'r Byrddau. Mae hyn wedi bod yn ffordd ddefnyddiol ac effeithiol iawn o ymgysylltu â'r Byrddau mewn perthynas â'r broses asesu.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu pecyn cymorth cenedlaethol ar gyfer y Byrddau, yn ogystal â chymorth a dargedir drwy gyllid rhanbarthol. Nod y cyllid hwn yw hyrwyddo gweithio ar y cyd, er mwyn defnyddio dulliau gweithredu cyson ac osgoi dyblygu ymdrechion. Nid yw'n ymwneud ag ariannu gweithgareddau drwy raglenni na chyflawni gweithgarwch Llywodraeth Cymru.

Mae'r meini prawf ariannu yn cael eu haddasu bob blwyddyn i adlewyrchu'r hyn y bydd y Byrddau yn gweithio arno yn ystod y flwyddyn ganlynol. Er enghraifft, nod meini prawf y grant yn 2021-22 yw helpu'r Byrddau i gynnal eu hasesiadau o lesiant.

Mae'r cymorth ychwanegol i helpu'r Byrddau i baratoi eu hasesiadau yn cynnwys y canlynol:

- Parhau i drefnu cyfarfodydd y rhwydwaith cenedlaethol, gweminarau sy'n canolbwyntio ar bynciau, a chyfarfodydd ar-lein, drwy 2021, ar y cyd â sefydliadau a rhwydweithiau eraill, gan adeiladu ar y digwyddiadau ymgysylltu a thymor hir a gynhaliwyd ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2020.
- Trefnu digwyddiad Cyfnewid Syniadau Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Mawrth 2021 i rannu'r arferion gorau a dangos yr effeithiau y gallai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu cael.
- Defnyddio cyfarfodydd y rhwydwaith, bwletinau, gweminarau ar-lein, a dulliau eraill o rannu arferion da/arferion gorau sy'n ymwneud â themâu penodol megis dadansoddi data, ymgysylltu â'r gymuned a'r dyfodol a'r tymor hir.
- Darparu clinigau galw heibio rheolaidd i gynnig cyngor (gan gynnwys comisiynu dadansoddiadau o ddata llesiant), profi syniadau, ac egluro gofynion sy'n ymwneud â'r asesiadau a'r cynlluniau llesiant.
- Paratoi set ddata graidd, drwy Data Cymru, sy'n cynnwys oddeutu 75 o ddangosyddion a fyddai'n cael eu defnyddio gan y rhan fwyaf o'r Byrddau, os nad pob un ohonynt, fel rhan o'r asesiadau llesiant.
- Paratoi catalog data, drwy Data Cymru, a fydd yn nodi data a gwybodaeth nad yw ar gael mor rhwydd, ee data o gyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf, a sefydliadau cenedlaethol eraill megis Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, a Gwasanaethau a Chomisiynwyr yr Heddlu. Byddai Data Cymru

wedyn yn gallu hwyluso a symleiddio'r ceisiadau am ddata er mwyn osgoi rhoi gormod o bwysau ar y ffynonellau hynny.

- Gweithio gyda'r tîm yn Llywodraeth Cymru sy'n arwain ar Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol er mwyn sicrhau bod eich gwaith chi a'u gwaith nhw yn gydnaws, ac yn cael ei integreiddio'n briodol, wrth iddo ddatblygu.
- Darparu cyllid ar sail ranbarthol i gefnogi'r gwaith o weithredu cynlluniau llesiant a pharatoi asesiadau o lesiant. Mae'r telerau ac amodau wedi cael eu hehangu ar gyfer y flwyddyn nesaf.